

Tyfu ar gyfer twf

E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn Gaeaf/Gwanwyn 2024.

Croeso i'r E-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

Beth sy'n digwydd nawr?

Gwobrau Lantra Cymru

Cynhaliodd Lantra Cymru, gyda chymorth Cyswllt Ffermio, seremoni wobrwyo arbennig ddydd Iau, 18 Ionawr 2024 yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod. Daeth y digwyddiad â chynrychiolwyr allweddol o'r sector amgylcheddol a diwydiannau'r tir yng Nghymru ynghyd, i ddathlu menter, sgil a brwdfrydedd myfyrwyr a hyfforddeion, a chyfraniadau rhagorol aelodau allweddol o'r diwydiant. Gwnaed y beirniadu gan banel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys Trefor Owen, Llinos Samuel, Debbie Handley, Amber Wheeler, a Benjamin Barnes. Mae'r enillwyr a'r enwebeion ar gyfer Gwobr Arddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi'u rhestru isod, a chafodd pob un ohonynt eu llongyfarch wedyn gan Weinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths. I gael y canlyniadau llawn, [cliciwch yma](#).



Cyd-enillydd Gwobr Garddwriaeth Cyswllt Ffermio: Marie Pope o Alfie Dans Market Garden, Aberhonddu, Powys

Ddwyr flynedd yn ôl, cyflawnodd Marie ei huchelgais hirdymor o sefydlu ei gardd farchnad ei hun ar ôl rhentu darn bach o dir gan ffermwr lleol. Mae Alfie Dans Market Garden wedi'i enwi ar ôl ei thaid, garddwr brwd a drosglwyddodd iddi ei wybodaeth a'i gariad at dyfu llysiau.



Cwblhaodd Marie ei Lefel 2 City & Guilds mewn garddwriaeth mewn coleg lleol ac mae bellach yn gweithio tuag at ei chwrs Twf, Lluosogi a Datblygu Planhigion Lefel 2 y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol. Mae hi hefyd yn manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael gan raglen arddwriaeth Cyswllt Ffermio. Wedi'i hysbrydoli gan ei llwyddiant cynnar, mae Marie eisoes wedi cymryd perchnogaeth o leiniau ychwanegol o dir gan ei galluogi i gynyddu cynhyrchiant a maint ei busnes, sydd bellach yn cwmpasu pedair erw. Mae hi hefyd yn dechrau trosi organig. Dywedodd y beirniaid fod cariad Marie at arddwriaeth, a'i phenderfyniad i ddatblygu a thyfu ei menter sydd eisoes yn llwyddiannus, yn ei gwneud yn gyd-enillydd teilwng.



Cyd-enillydd Gwobr Arddwriaeth Cyswllt Ffermio: Jonathan Tiller, o Trees for Tomorrow, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro

Arweiniodd diddordeb hirsefydlog Jonathan mewn cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd ef at newid ei yrfa'n llwyr! Gadawodd ei yrfa flaenorol o fewn y diwydiannau olew a nwy i ddechrau planhigfa 'di-elw' yn tyfu coed yn fasnachol yn Sir Benfro. Cymerodd risgiau wrth sefydlu menter coetir newydd ond gwnaeth ei waith ymchwil, nododd ei farchnad, a diolch i'r sgiliau newydd a ddysgodd o hyfforddiant parhaus trwy Cyswllt Ffermio, mae'r gambl yn talu ar ei ganfed. Ar hyn o bryd yn ymchwilio i gyfleoedd ariannu, mae Jonathan yn bwriadu gweithio gydag ysgolion, ffermydd gofal, grwpiau niwro-amrywiol ac eraill y mae'n gobeithio eu hysbrydoli i weithredu ar newid yn yr hinsawdd. Cwblhaodd Jonathan amryw o gyrсияu hyfforddiant gorfodol gan gynnwys PA1, PA6, trin tractor a llif gadwyn ac mae hefyd wedi dilyn sawl cwrs cynllunio busnes. Dywedodd y beirniaid fod ei ymrwymiad clir i adeiladu ei sylfaen wybodaeth a hyrwyddo newid yn yr hinsawdd yn ei wneud yn gyd-enillydd haeddiannol iawn y wobwr arddwriaeth eleni.

Yn ail yng Ngwobr Arddwriaeth Cyswllt Ffermio: Andrew Gethin, o Kerry Vale PSI, Y Drenewydd, Powys

Mae Andrew yn bartner yn y fferm tir â'r, gwartheg a moch deuluol ger y Drenewydd. Mae ei fenter arddwriaeth amrywiol lewyrchus hefyd yn ffocws allweddol i Andrew. Dechreuodd y teulu gyda chae pwpenni 'casglu eich hun', maen nhw'n tyfu blodau haul ac mae ganddynt gae blodau hefyd.

Astudiodd Andrew amaethyddiaeth ac amaeth-fecaneg yn ei goleg lleol ond, ers hynny, mae wedi bod yn dysgu popeth o fewn ei allu am arddwriaeth. Mae'n gefnogwr brwd o raglen arddwriaeth Cyswllt Ffermio, ac mae wedi elwa'n fawr o



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

ddysgu gan gymheiriaid trwy fod yn rhan o grŵp 'Rhwydwaith Tyfwyr' ac mae wedi bod ar sawl taith astudio. Gwnaeth penderfyniad Andrew i ddod o hyd i ddatrysiadau effeithiol i ddelio â phatrymau tywydd cyfnewidiol a rheoli chwyn argraff fawr ar y beirniaid. Wrth ei fod eisoes yn edrych ar gnydau newydd i 'aros ar y blaen' yn y gystadleuaeth a chadw diddordeb sylfaen gwsmeriaid ffyddlon y fenter, roedd ymrwymiad parhaus Andrew i ddysgu wedi creu argraff ar y beirniaid.

Am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â Rachel Thomas ar 01982 552646 neu e-bostiwrch rachel.thomas@lantra.co.uk

A hoffech chi gael stonidin masnach garddwriaeth yng Ngŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad CAFC 2024 a gynhelir ar 18 a 19 Mai 2024?

Rydym yn galw ar bob tyfwr i ymuno â Cyswllt Ffermio yng Nghanolfan Aelodau CAFC ar gyfer Marchnad Tyfwyr 2024. Unwaith eto, rydym yn ôl yng Ngŵyl Tyddyn a Chefn Gwlad CAFC, ac rydym yn falch o gynnig cyfle gwych i'n tyfwyr gymryd rhan yn y digwyddiad poblogaidd hwn.

Mae gennym ni nifer fach o stonidau masnach **wedi'u hariannu'n llawn** ar gael i Dyfwyr Cymru ymuno â ni dros y penwythnos a gwerthu eu cynnyrch.

Bydd tyfwyr yn cael y cyfle i arddangos a gwerthu eu cynnyrch a rhannu eu gwytbodaeth a'u harbenigedd yn ystod y digwyddiad deuddydd. Mae'r Ganolfan Aelodau mewn lleoliad gwych ger y fynedfa a'r allanfa i aelodau'r cyhoedd gyda'r prif faes parcio y tu ôl i'r adeilad.

Oherwydd natur y cyfle hwn, bydd lleoedd wedi'u hariannu'n llawn yn cael eu dyrannu trwy broses ymgeisio. Byddwn yn chwilio am dyfwyr sy'n cynrychioli trawstoriad o'r diwydiant garddwriaeth sydd â'r gallu a'r adnoddau i gyflwyno'r digwyddiad deuddydd. Bydd disgwyl i dyfwyr llwyddiannus weithio gyda ni yn y cyfnod cyn y digwyddiad i roi mewnbwn ac awgrymiadau ar olwg a theimlad yr ystafell. Dyma ein cyfle i arddangos y gorau o Ddiwydiant Garddwriaeth Cymru, felly gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i ddangos beth allwn ni ei wneud!

Ein ffocws yw hyrwyddo Cynnyrch Garddwriaethol o bob rhan o Gymru.

Os hoffech chi ddod â Chynnyrch Bwyriadwy Gwerth Ychwanegol e.e. Siytni, Olew, Gwin a Seidr, gofynnir i chi arddangos yn y Neuadd Fwyd – cysylltwch â foodhall@rwas.co.uk

I drafod, cysylltwch â Rachel Thomas ar 01982 552 646 neu drwy e-bost ar rachel.thomas@lantra.co.uk. I wneud cais, dilynwch y **ddolen** hon erbyn 29/2/24

a gweler yma: <https://rwas.wales/smallholding-and-countryside-festival>

Sylwer hefyd fod Pentref Garddwriaethol Sioe Frenhinol Cymru 2024 yn dal i fagu momentwm. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan neu gael stonidin neu arddangosfa ryngweithiol, cysylltwch â horticulture@lantra.co.uk



Diweddarwch eich gwytbodaeth

Chwilio am fwy o gymorth? Gallwch gael hyd at 12 awr o [gymorth busnes garddwriaethol](#) trwy Raglen Arddwriaeth Cyswllt Ffermio. Gallwch hefyd ymuno â chymaint o Rwydweithiau ag sydd eu hangen arnoch, er mwyn cael cyngor sector-benodol. [Cliciwch yma.](#)

Tudalen Facebook Rhwydwaith Tyfwyr Cymru – Ymunwch â'n grŵp caeedig ar Facebook, 'Rhwydwaith Tyfwyr Cymru', i glywed am ddi-gwyddiadau ac ymweliadau astudio, ac i rannu dysgu a phrofiadau rhwng gymheiriaid. Gweler [yma](#).

Cymorth Grant – Nodwch y [dyddiadau](#) ar gyfer cynlluniau gwledig. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol, neu ni ar horticulture@lantra.co.uk am gyngor.

Beth sydd ymlaen?

Mae'r 'tymor gwyliau' yn dawelach i rai, ond cynhaliwyd 11 digwyddiad ar-lein ac wyneb yn wyneb rhwng mis Rhagfyr a chanol Ionawr, gan gynnwys cyfarfodydd Rhwydwaith Blodau Cymru, gweithdai ar sut i gael gwefan ar gyfer gwerthu llysiau a Thocio Gwinllan.

Mae gennym lawer o ymweliadau safle gwych a digwyddiadau wedi'u cynllunio. Peidiwch â cholli allan a chofrestrwch ar gyfer mwy o ddi-gwyddiadau [yma](#) heddiw.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn llwyr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu fuddolion. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.